



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Cylch Meithrin Garndolbenmaen
Ysogol Gynradd Garndolbenmaen
Garndolbenmaen
Gwynedd
LL51 9SZ**

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2014

gan

Mr Eifion R Morgan

ar ran

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/04/2014

Cyd-destun

Mae'r Cylch Meithrin wedi ei leoli yn neuadd Ysgol Gynradd Garndolbenmaen. Pentref gwledig yw Garndolbenmaen rhyw 10 milltir i'r gogledd o Borthmadog. Cafodd y Cylch ei sefydlu rhyw 28 mlynedd yn ôl fel lleoliad cyfrwng Cymraeg sy'n gwasanaethu'r ardal wledig hon. Daw'r plant o amrywiaeth o gefndiroedd cymdeithasol- economaidd. Mae'r lleoliad yn disgrifio'r ardal fel un nad yw'n arbennig o ffyniannus nac o dan anfantais economaidd.

Mae'r lleoliad yn cael ei reoli gan bwyllgor rheoli gwirfoddol ac mae'n cael ei gefnogi gan Bartneriaeth plant a phobol ifanc Gwynedd. Mae hefyd yn aelod cofrestredig o'r Mudiad Meithrin.

Mae'r lleoliad ar agor am 5 bore'r wythnos, rhwng 9 y.b. a 12 y.p. yn ystod tymor yr ysgol. Mae'r plant yn mynychu o 2 ½ oed ac yn gadael ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg yn y mis Medi sy'n dilyn eu trydydd pen-blwydd. Ar hyn o bryd mae 8 o blant ar y gofrestr gyda 3 ohonynt yn 3 oed ac mae 2 ohonynt yn cael eu hariannu. Mae'r plant eraill sy'n 3 oed yn mynychu'r ysgol bob prynhawn. Mae darpariaeth ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol, ond adeg yr arolygiad nid oedd unrhyw blant o'r fath yn bresennol. Nid oedd plant o gefndir ethnig lleiafrifol.

Mae tua hanner y plant yn dod o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad fel prif iaith. Mae bron yr holl blant yn symud ymlaen i ysgol bentref Garndolbenmaen, sy'n ysgol cyfrwng Cymraeg.

Mae'r lleoliad yn defnyddio neuadd yr ysgol sydd yn aml-bwrpas a rhaid i'r ardaloedd gweithgareddau gael eu gosod ar gyfer pob sesiwn. Cyn hyn roedd y lleoliad yn rhannu ystafell gyda'r dosbarth meithrin yn yr ysgol, ond gan fod nifer y plant yn yr ysgol wedi cynyddu, roedd hyn yn profi'n amhriodol. Mae'r neuadd yn ystafell fawr sydd wedi'i goleuo a'i gwresogi'n dda, ac sydd wedi'i gosod yn briodol bob bore gydag ardaloedd gweithgareddau yn unol ag athroniaeth y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r lleoliad yn defnyddio toiledau'r ysgol sydd lawr y coridor sy'n golygu bod rhaid i'r plant gael rhywun i fynd gyda nhw. Mae'r plant yn elwa o ddefnyddio iard yr ysgol lle maen nhw'n medru defnyddio teganau symudol mawr a chwarae gemau pêl.

Mae'r lleoliad wedi'i staffio gan ddau oedolyn sydd â chymwysterau da ac yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Mae rhiant ar gael i gynorthwyo os oes angen.

Cafodd y lleoliad ei arolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn 2012 a gan Estyn yn 2007. Mae'r prif argymhellion wedi cael sylw.

Crynodeb

Perfformiad presennol y lleoliad	Da
Rhagolygon gwella'r lleoliad	Da

Perfformiad presennol

Prif arfarniad

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- ansawdd yr arweinyddiaeth;
- y cyfleoedd dysgu sy'n cael eu darparu ar gyfer y plant;
- y gofal, cymorth ac arweiniad mae'r plant yn eu mwynhau;
- ansawdd y berthynas rhwng y plant a rhwng y staff a'r plant;
- gwaith y pwyllgor rheoli;
- ymddygiad ac agweddau'r plant;
- y ffordd mae'r staff yn cyd-weithio fel tîm.

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r feithrinfa yn dda oherwydd:

- ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth;
- yr hanes da o addasu er mwyn newid a bodlonrwydd y lleoliad i geisio ffyrdd o wella;
- cefnogaeth y pwyllgor rheoli;
- yr ethos hunanarfarnol sy'n bodoli;
- y gefnogaeth gan athrawes gefnogi'r Awdurdod Lleol a Mudiad Meithrin.

Argymhellion

Mae angen i'r lleoliad:

- A1 adolygu ei ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau rhifedd y plant.
- A2 cynnal safonau cyflawniad y plant, a'u gwella lle'n bosibl.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Da

Profiadau dysgu: Da

Mae'r lleoliad yn darparu'r plant ag ystod eang o brofiadau diddorol ac ysgogol ar draws yr holl feysydd dysgu. Mae'r cynllunio yn cael ei wneud ar y cyd gydag ystyriaeth dda o ddi-ddordebau a phrofiadau'r plant. Mae hyn yn gymorth i sicrhau eu bod yn cymryd rhan. Mae'r cynllunio'n dangos bod parhad a dilyniant yn nysgu'r plant a bod y gwaith yn cael ei wahaniaethu'n addas i ddarparu ar gyfer gwahanol oedrannau'r plant a'u gallu.

Mae sgiliau cyfathrebu a TGCh y plant yn cael eu gwreiddio'n gadarn ym mhrofiadau pob plentyn ac maen nhw'n cael eu herio'n briodol. Mae cyfleoedd da yn cael eu cynllunio i alluogi plant o wahanol oed a gallu i ddatblygu eu sgiliau llythrennedd. Mae adrodd stori wedi'i wahaniaethu'n dda i ganiatáu i blant fwy abl wrando ar stori, ateb cwestiynau ac i ragfynegi canlyniadau tebygol. Mae'r plant yn mwynhau edrych ar lyfrau ac yn gwneud hyn yn annibynnol. Maen nhw'n dal llyfrau'n gywir ac mae'r plant hyn yn dilyn y storïau. Mae'r plant hyn a mwy galluog yn dal pensiliau a chreonau yn gywir ac yn dilyn amlinelliadau llythrennau a rhifau.

Mae'r cynllunio i ddatblygu agweddau o fedrau rhifedd plant yn llai manwl. Mae'r holl blant yn datblygu eu gallu i gyfrif ac i adnabod rhifau ac enwi siapiau dau ddimensiwn syml, gan gynnwys cylchoedd, trionglaau a sgwariau. Nid yw'r cynllunio cystal ar gyfer galluogi'r plant i ddatrys problemau syml ac i ddefnyddio iaith fathemategol.

Mae cyfleoedd da yn cael eu cynllunio i ddatblygu sgiliau cyfrifiadurol y plant. Mae'r plant yn cael mynediad rhydd i gyfrifiadurol ac mae'r cynllunio yn sicrhau bod gweithgareddau cyfrifiadurol yn rhan annatod o'r gweithgareddau mae'r plant yn ymgymryd â nhw yn ystod eu hamser yn y lleoliad.

Mae cyfleoedd da i blant ddatblygu eu sgiliau arbrofol a meddwl. Roedd y cynllunio yn ystod yr arolygiad yn cynnwys plant yn gwneud menyn. Cafodd hyn ei wneud yn llwyddiannus drwy ysgwyd hufen mewn jar bach a samplu'r canlyniadau. Roedd gan yr arolygydd ei jar ei hun ac yn cymryd rhan yn y blasu!

Roedd y cynllunio i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o'r byd yn cynnwys arddangosfa gan riant o geiliog ac iâr, gyda thrafodaeth o wyau lliw gwahanol. Dangosodd y plant eu diddordeb a'u syndod.

Mae'r cynllunio'n dangos defnydd da o'r amgylchedd lleol, gan gynnwys ymweliadau â'r parc lleol yn yr hydref i gasglu dail.

Mae'r cynllunio yn rhoi amlygrwydd i ddatblygiad yr iaith Gymraeg a diwylliant a thraddodiadau Cymru. Fel lleoliad cyfrwng Cymraeg, mae'r plant yn cael eu trochi yn llwyr yn yr iaith Gymraeg. Mae'r holl gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae'r plant, beth bynnag yw eu cefndir, yn caffael cymhwysedd digonol sy'n eu galluogi i fynychu'r ysgol babanod ac iau cyfrwng Cymraeg.

Mae'r cynllunio hefyd yn cynnwys dathliadau Cymreig megis Dydd Gŵyl Dewi gyda'r plant yn gwisgo'n briodol ac yn blasu bwyd Cymreig.

Addysgu: Da

Mae gan y staff wybodaeth a dealltwriaeth dda o athroniaeth y Cyfnod Sylfaen a disgwyliadau uchel o'r hyn mae'r plant yn ei ddysgu. Mae'r profiadau dysgu yn ysgogol ac yn herio'r plant. Mae plant o bob gallu yn dangos eu diddordeb yn y gwaith ac yn dewis gweithgareddau yn bwrpasol gan weithio'n unigol a gyda plant eraill pan mae'n briodol i'w wneud. Mae defnydd da yn cael ei wneud o'r adnoddau sydd ar gael, gan gynnwys technoleg gwybodaeth. Mae'r plant, heb anogaeth, yn dewis gweithio ar y cyfrifiadur ac maen nhw'n dangos eu gallu i drin y llygoden yn hyderus i symud eiconau ar y sgrîn. Mae'r cymorth gan oedolion yn canolbwyntio'n dda ar adael plant i weithio ar eu pennau eu hun ond i roi cefnogaeth yn ôl yr angen. Mae cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan oedolion a'u dewis gan y plentyn. Mae cwestiynu yn cael ei ddefnyddio'n dda i ddatblygu sut mae'r plant yn meddwl a thrafodaeth yn cael ei defnyddio'n dda i ddatblygu iaith y plant.

Mae'r plant yn dysgu drwy chwarae. Mae'r plant yn cael eu rheoli'n dda ac mae ymddygiad yn dda iawn. Mae'r holl blant yn dangos agwedd dda tuag at ddysgu. Mae'r plant yn cael eu hasesu'n rheolaidd ac yn gynhwysfawr ac mae'r arsylwadau'n cael eu cofnodi mewn llyfryn cofnod plentyn unigol "Fy Stori".

Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac mae canlyniadau'r asesu yn cael eu defnyddio'n dda wrth gynllunio'r gweithgareddau nesaf i'r plant. Mae hyn yn sicrhau bod tasgau yn cwrdd ag anghenion a diddordebau'r plant ac yn ddigon heriol. Roedd rhieni, mewn trafodaeth, yn nodi eu bodlonrwydd gyda'r adroddiadau maen nhw'n eu derbyn sy'n rhoi gwybodaeth am gynnydd eu plentyn. Mae sampl o rieni yn nodi eu boddhad llwyr â'r lleoliad.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer sicrhau iechyd a lles y plant, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol, yn dda. Mae'r trefniadau hyn yn effeithiol ac yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad a lles personol y plant.

Mae'r plant yn hapus ac yn ddiogel yn y lleoliad ac mae hyn yn rhoi'r hunan - hyder iddynt weithio yn unigol gan wybod eu bod yn gallu gofyn am gymorth pryd bynnag mae ei angen arnynt. Mae'r staff yn ymwybodol iawn o anghenion dysgu unigol y plant ac mae'r rhain yn cael eu bodloni'n briodol.

Mae ethos tawel yn amlwg yn y lleoliad lle mae ymddygiad yn dda iawn ac nid oes unrhyw dystiolaeth o ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae'r trefniadau sefydlu yn sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n gyflym yn y lleoliad ac yn ystod yr arolygiad roedd pob plentyn yn hapus i fod yn bresennol. Mae cyfleoedd da ar gyfer datblygu medrau personol a chymdeithasol y plant. Mae polisïau a gweithdrefnau priodol yn eu lle i sicrhau bod materion amddiffyn plant yn cael eu bodloni ac mae'r staff wedi mynychu cyrsiau yn diweddar.

Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel o fewn yr ysgol. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Nid oes unrhyw blant sydd wedi'u nodi ag anghenion dysgu ychwanegol.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r lleoliad yn amgylchedd tawel lle mae'r plant yn mwynhau eu hunain ac mae eu brwdfrydedd yn amlwg wrth iddynt gyrraedd yn y bore. Mae'n gymuned hapus lle mae'r holl blant yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi fel unigolion. Mae pob un yn cael hawl gyfartal i bob rhan o ddarpariaeth y lleoliad. Mae cyflawniadau'r plant yn cael eu dathlu ac mae pob un yn rhan o'r amgylchedd cartrefol hwn.

Mae'r ymarferwyr yn mwynhau bod gyda'r plant ac yn defnyddio eu dealltwriaeth dda o athroniaeth y Cyfnod Sylfaen i greu amgylchedd ysgogol ar gyfer dysgu.

Mae'r adnoddau'n gweddu'n dda i anghenion y plant ac yn cefnogi eu dysgu. Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd da o ymweliadau ac ymwelwyr i'r Cylch i wella dysgu'r plant.

Mae'r ystafell yn ddiogel ac yn cael eu defnyddio'n briodol.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Mae gan yr arweinydd ddealltwriaeth glir iawn o athroniaeth y Cyfnod Sylfaen. Mae hyn yn cynnwys barn ar sut y dylai plant ddysgu a sut i gyfateb gweithgareddau i anghenion a diddordebau'r plant. Mae nodau ac amcanion strategol yr arweinydd yn canolbwyntio'n glir ar ddarparu ansawdd uchel o ddarpariaeth ar gyfer y plant a'u helpu i gyrraedd eu potensial. Mae'r arweinydd yn llwyddo i gyfathrebu ei disgygliadau uchel i'w chydweithiwr ac mae'r ddwy yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ac mae llwyddiant y lleoliad yn adlewyrchu eu hymrwymiad llawn. At ei gilydd, mae'r lleoliad yn cael ei reoli'n dda a'i arwain yn dda iawn.

Mae'r pwyllgor rheoli yn cael ei hysbysu'n dda am waith a chynnydd y lleoliad ac yn llwyr gefnogi'r staff. Mae'r cadeirydd yn ymwelydd cyson â'r lleoliad ac mae hyn yn ei

galluogi i gael ei hysbysu'n llawn. Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn hyderus yn eu rolau.

Mae synnwyr o ddiben yn amlwg yn y lleoliad ac mae hyn yn hyrwyddo ac wedi cynnal gwelliannau sy'n canolbwyntio ar ddarparu'r amgylchedd gorau posibl ar gyfer y plant. Mae ethos hunan-feirniadol yn amlwg ac mae syniadau newydd yn cael eu monitro a'u gwerthuso.

Mae system effeithiol o werthuso ymarferwyr yn erbyn targedau yn ei lle. Mae hyn yn cael ei wneud yn flynyddol. Mae mynychu cyrsiau hyfforddiant proffesiynol yn effeithiol ac mae'r arweinydd wedi cynorthwyo lleoliadau eraill gyda datblygiad yr iaith Gymraeg. Mae'r lleoliad yn effeithiol wrth weithredu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol.

Gwella ansawdd: Da

Mae ymarferwyr yn adnabod eu lleoliad yn dda ac maen nhw wedi llwyddo i gynnal darpariaeth dda yn ystod adeg pan symudodd y Cylch i leoliad newydd. Yn y cyfnod byr o amser ers symud i mewn i neuadd yr ysgol mae'r plant wedi setlo i mewn i drefn ac mae'r safonau wedi'u cynnal.

Mae diwylliant o hunanarfarnu yn treiddio trwy waith y lleoliad. Mae'r staff yn rhannu eu gwybodaeth ac mae'r arweinydd yn darparu arweinyddiaeth glir. Mae profiad o leoliadau eraill yn cael ei ddefnyddio'n dda. Mae barn y pwyllgor rheoli a'r rhieni yn cael eu cynnwys yng ngwaith y lleoliad.

Mae blaenoriaethau ar gyfer gwella wedi cael eu nodi gyda amserlen addas.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae gweithgareddau partneriaeth yn gwneud cyfraniad da i sut mae'r plant yn dysgu. Mae rhieni yn cymryd rhan weithredol yng ngweithgareddau'r lleoliad ac mae eu cefnogaeth yn hanfodol o ran cynnal y lleoliad yn ariannol ac wrth gefnogi cynnydd eu plant. Mae rhieni yn siarad yn uchel am y cynnydd mae eu plant yn ei wneud yn bersonol, yn gymdeithasol ac yn academaidd. Mae'r rhieni'n cael eu hysbysu'n dda am bob agwedd o weithgareddau'r lleoliad ac yn elwa o lawlyfr defnyddiol a llawn gwybodaeth pan fydd eu plentyn yn dechrau yn y lleoliad.

Mae cysylltiadau cryf yn bodoli gyda'r ysgol babanod a chynradd leol, yn fwy na dim gan eu bod yn rhannu'r adeilad ac mae gan y lleoliad ddefnydd o gyfleusterau'r ysgol. Mae athrawes y Cyfnod Sylfaen yn ymweld â'r lleoliad yn aml ac yn rhoi cyngor a chefnogaeth. Mae'r plant o'r lleoliad yn mynychu gweithgareddau'r ysgol, mae nifer yn cael cinio yn yr ysgol ac mae rhai yn mynychu dosbarthiadau'r prynhawn.

Mae athrawes gefnogi'r awdurdodau lleol yn ymwelydd cyson ac mae ei chymorth a'i hanogaeth wedi bod yn werthfawr ac yn cael ei werthfawrogi. Yn yr un modd mae'r lleoliad wedi elwa o gefnogaeth Mudiad Meithrin.

Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ac yn rhannu gwybodaeth am blant ac yn gwybod gyda phwy i gysylltu pan ac os bydd angen cymorth ychwanegol ar gyfer plant penodol.

Mae cysylltiadau cymunedol yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi dysgu'r plant.

Rheoli adnoddau: Da

Mae'r adnoddau'n cael eu rheoli a'u defnyddio'n effeithiol i gefnogi'r dysgu. Mae staff wedi mynychu cyrsiau hyfforddiant proffesiynol perthnasol ac yn rhannu eu gwybodaeth broffesiynol. Mae'r gyllideb yn cael ei rheoli'n ofalus ac mae gwariant yn cael ei flaenoriaethu.

Mae'r penderfyniadau ariannol yn cael eu harfarnu gan y pwyllgor rheoli.

At ei gilydd, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

Atodiad 1

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Derbyniwyd llai na 10 ymateb. Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

Atodiad 2

Yr arolygydd cofnodol

Mr Eifion R Morgan	Arolygydd Cofnodol
--------------------	--------------------

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn
(www.estyn.gov.uk)

Rhestr termau

AGGCC	Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru.
Athro ymgynghorol awdurdod lleol	Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed.
Y Cyfnod Sylfaen	Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed
Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)	Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned.
Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)	Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau.
Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)	Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref.
Meysydd Dysgu	Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> • datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol • medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu • datblygiad mathemategol • datblygu'r Gymraeg • gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd • datblygiad corfforol • datblygiad creadigol
Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBC GP)	Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth.

Adroddiad ar Cylch Meithrin Garndolbenmaen
Mawrth 2014

Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)	Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012.
Mudiad Meithrin	Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg.